Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.
This document is available in English

# CRYNODEB
# CYNLLUN CREU LLEOEDD TREFFYNNON



creu lleoedd SIRYFFLINT

Roberts Limbrick

chris jones

# CRYNODEB

Diben y Cynllun Creu Lleoedd hwn yw nodi'r anghenion, y weledigaeth, y dull a'r fframwaith cyfleoedd a fydd yn helpu cynllunio a chyflawni gweithgarwch a buddsoddiad seiliedig ar le yn Nhreffynnon. Er ei fod yn canolbwyntio ar ganol y dref, mae'r Cynllun yn edrych hefyd ar y berthynas ehangach gyda'i gymdogaethau a'i drigolion a chydag asedau gerllaw megis Dyffryn Maes Glas. Mae Treffynnon yn un o saith o drefi ledled y Sir sy'n cynnwys Bwcle, Cei Connah, y Fflint, yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton.



Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn helpu i ddangos ac adnabod anghenion lleol, ac felly rhoi tystiolaeth i sefydliadau cyflawni strategol wrth gysoni gwasanaethau o ddydd i ddydd, yn ogystal â throsoli cyllid grant ar gyfer prosiectau adfywio yn y dyfodol. Mae hefyd yn nodi ffyrdd o weithio sy'n pontio partneriaethau strategol a lleol a fydd yn helpu meithrin datblygu a gweithredu prosiectau ar y cyd a chynaliadwyedd mwy hirdymor tref fel Treffynnon.

## Heriau Treffynnon

- Mae system ffyrdd y dref yn eich arwain chi i lawr i ymylon dwyreiniol a gogleddol canol y dref, ac nid yn mynd â chi'n uniongyrchol i'w graidd. Mae ymwelwyr sydd yno am y tro cyntaf yn teithio ar hyd amryw o ffyrdd cylchol sydd naill ai'n mynd â chi i faes parcio siop fwyd Tesco neu i iardiau gwasanaethu yn y cefn.
- Mae canol y dref wedi ei angori o amgylch ei Stryd Fawr, nad yw'n ffordd drwodd i draffig, ac sydd â lle llydan agored gyda phensaernïaeth gref yn fframio'r ymylon. Fodd bynnag, mae gan y dref gyfradd eiddo gwag o 26%, mae'n brin o amrywiaeth dibenion ac nid oes teimlad cymdeithasol i'r lle.
- Er bod gan ganol y dref nifer sylweddol o adeiladau rhestredig, sy'n dweud stori flaenorol y dref, maent wedi newid eu dibenion ac wedi addasu fesul tipyn dros amser, heb fod yn cyfrannu at strydlun ystyrlon.
- Dengys ystadegau fod rhai o drigolion Treffynnon yn byw mewn cymdogaethau sydd â'r angen mwyaf. Mae graddau iechyd, cyrhaeddiad addysgol, dioddef troseddu, gweithgarwch economaidd ymhlith rhai o'r dangosyddion sydd gryn dipyn is na chyfartaledd Cymru.
- Mae Strategaeth Dyffryn Maes Glas – cynllun 'darlun mawr' 10-mlynedd i Ddyffyn Maes Glas - wedi ei nodi fel un o'r deg cyrchfan uchaf yng ngogledd Cymru sy'n cynnig cymysgedd diddorol o brofiadau diwylliannol, amgylcheddol, treftadaeth a hamdden. Er bod y Dyffryn yn agos i ganol y dref, mae angen neges gryfach wrth gyrraedd o'r gorllewin ynghylch ei brofiad, hanes, byd natur lleol a'i hygyrchedd, gan adeiladu ar ei lwybr treftadaeth trefol presennol.
- Roedd yr Archwiliad Seilwaith Gwyrdd yn nodi amryw o heriau yng nghanol y dref. Yr heriau hyn oedd mai ychydig iawn o orchudd coed sydd yno, gyda chysylltiadau prin neu o ansawdd gwael â llecynnau gwyrdd gan gynnwys Dyffryn Maes Glas, Ffordd Clawdd Wat a Pharc y Fron ar hyd ymyl ddeheuol canol y dref.
- Mae goruchafiaeth cerbydau ar hyd Rue St Gregoire/A5026 yn hollti canol y dref yn ddau ran, gyda darpariaeth wael ar gyfer cerdded a beicio. Wrth symud i ganol y dref, mae'r parth cyhoeddus yn flêr a di-drefn heb fawr o deimlad o le a'r pwyntiau cyrraedd yn anodd eu hadnabod.
- Mae'r diffyg llecynnau gwyrdd yng nghanol y dref yn golygu her yn yr ystyr y byddai cyflwyno coed i leoedd o dirwedd caled yn fwy cymhleth a chostus o gymharu ag ardaloedd o dirwedd meddal.

## EIN GWELEDIGAETH AR GYFER TREFFYNNON



### Gweledigaeth

Treffynnon – lle daw Dyffryn Maes Glas a ffynhonnau'r Santes Gwenffrewi ynghyd, gyda chanol y dref yn ganolbwynt siopau lleol, lleoedd i gyfarfod, marchnadoedd wythnosol a bywyd cymunedol, ac yn estyn allan i'w gymdogaethau cyfagos.




### Nodau Allweddol

Rhoi Treffynnon ar y map fel cyrchfan ar gyfer llesiant gyda Dyffryn Maes Glas, Ffynnon y Santes Gwenffrewi, Bryn Helygain a'i ganol tref sy'n wynebu'r gymuned.


Cyfeirio pobl i ganol y dref gan brofi ei barciau a'i gynnig hamdden cyn galw yn y Stryd Fawr.

Cynyddu gweithgarwch a bywyd ar y Stryd Fawr trwy ddefnydd llesol ohoni, lleoedd cymunedol, marchnadoedd lleol, digwyddiadau a gwyliau lleol gyda golygfeydd stryd o ansawdd uchel i'w gweld.

Gwella llesiant y gymuned ehangach gyda mynediad at amrywiaeth o wasanaethau lleol sy'n cefnogi iechyd, llesiant, cyflogaeth, symudedd a gwell cyfleoedd bywyd.



# CYFLEOEDD LLE



### Pyrth i mewn i'r Dref

Bydd hierarchaeth o byrth o fewn y dref yn rhoi argraff gadarnhaol o'r dref i drigolion a phreswylwyr ac yn helpu symudiad a chyfeiriad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cryfhau ffordd yr A5026/Parc y Fron
- Porth Ffordd Parc y Fron i'r Maes Parcio
- Pyrth Ffordd Parc y Fron
- Porth Gwesty Victoria
- Porth Stryd Chwitffordd
- Prif Faes Parcio



### Bywiogi a Gwyrddu Canol y Dref

Unwaith mae pobl wedi cyrraedd yng nghanol y dref un ystyriaeth allweddol yw sut i'w hannog i aros. Mae'r dref yn ddioddef ar hyn o bryd o lecynnau cyhoeddus gwael a all fod o dan oruchafiaeth ceir, ac nid ydynt yn cynnig fawr ddim o safbwynt seddau na gwyrddni, a fyddai'n gwahodd pobl i dreulio amser yno. Mae cyfle gwych drwy holl ganol y dref i greu mwy o lecynnau addas i bobl sy'n annog ac yn ymestyn amser (a chynyddu arian) a dreulir yng nghanol y dref. Mae lleoedd sy'n gofyn am sylw yn cynnwys y Stryd Fawr, Gerddi'r Tŵr a'r A5026.



### Cysylltiadau â'r Stryd Fawr

Mae nifer o gysylltiadau allweddol i mewn ac allan o ganol y dref sy'n cysylltu â'r ardal ehangach ac maent yn allweddol er mwyn denu pobl i'r Stryd Fawr. Bydd gwelliannau i barth y cyhoedd yn y Stryd Fawr, yr A5026, y maes parcio a phyrth allweddol yn creu tref fwy bywiog a deniadol ond ni fyddant o fudd os na all pobl gael mynediad hawdd atynt.



### Dyffryn Maes Glas yng Nghanol y Dref

Mae angen i ganol y dref ddatblygu'r hyn mae'n ei gynnig a'i brofiadau i ymwelwyr i ardal Dyffryn Maes Glas boed y rhain ar gyfer trigolion lleol, ymwelwyr dydd, ymwelwyr sy'n aros yn hirach a'r rheini sy'n crwydro llwybrau pellter hir megis Llwybr Pererinion Gogledd Cymru. Mae angen i welliannau ffisegol gael eu hystyried law yn llaw â rheoli cyrhaeddiad, symudiad yn ôl ac ymlaen o Ddyffryn Maes Glas, rôl gwyrddni yng nghanol y dref ac ail-gryfhau cymeriad yn ogystal â pharth cyhoeddus apelgar ac ymarferol. Mae angen datblygu amrywiaeth o lety ymwelwyr sy'n cefnogi economïau dydd a nos, yn ogystal ag ysgogi busnesau newydd trwy adfywio marchnadoedd awyr agored, gwyliau llesiant, therapïau holistig a darpariaethau bwyd a diod er mwyn cyflwyno cynnig amrywiol a "lleol".

## CYFLEOEDD LLE



**Bywiogi'r Stryd Fawr**

Mae'r stryd yn eithaf llydan ac mae ganddi'r cyfle i gyflwyno'i hun fel llecyn bywiog, ochr yn ochr â sgwariau a llecynnau llai megis Stryd y Ffynnon a Gerddi'r Tŵr. Dylid darparu mwy o gyfleoedd i dreulio amser trwy seddau, mannau cysgodol trwy blannu coed a llecynnau cyhoeddus hygyrch. Mae'n allweddol bwysig gweithio gyda chyfleoedd i wella ansawdd y treflun a manteisio i'r eithaf ar leoliad Dyffryn Maes Glas, ac ar hunaniaeth a phrofiad canol y dref. Mae angen i fywyd y palmant fod yn fwy cymdeithasol, deniadol ac amrywiol gyda thrwyddedau stryd yn darparu'r fframwaith ar gyfer arddangos nwyddau, gosod byrddau a chadeiriau a phlanhigion. Mae angen cysylltu'r rhain â chôd dylunio ar gyfer ffryntiadau masnachol. Mae rôl marchnadoedd awyr agored o fewn Treffynnon yn faes allweddol i fuddsoddi ynddo, oherwydd, os cânt eu cynnal a'u rheoli'n ofalus, maent yn rhoi llwyfan i arddangos cynhyrchion lleol, cynhyrchu gweithgarwch stryd a chyflwyno busnesau newydd i leoliadau yng nghanol y dref.

## CYFLEOEDD POBL



**Llesiant yn y Gymuned**

Gall datblygu llecyn cyhoeddus bywiog sy'n hygyrch, cysylltiedig, cynhwysol ac addasadwy ar gyfer pob angen arwain at fyw llesol o ddydd i ddydd. Gellir gwireddu gweithgarwch allgymorth cymunedol i gynyddu cyfraddau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol trwy glybiau cerdded, llogi beiciau, prosiectau tyfu cymunedol a thrwy weithgareddau dan do megis ioga, dosbarthiadau ymarfer corff yn ogystal â champfeydd gwyrdd awyr agored. Gall y gweithgareddau hyn gefnogi busnesau canol y dref hefyd lle gall grwpiau cerdded/ rhedeg gyfarfod a diweddu mewn caffis lleol, sefydlu gwyliau cerdded cymunedol a mwy. Mae cysylltiadau hefyd â grwpiau a sefydliadau cymunedol sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, gyda rhaglenni atgyfeirio ymarfer corff, cyngor ar ddeiet a maethiad, benthyg e-feiciau cymunedol a mwy.



**Cysylltu Asedau Cymunedol**

Mae gan Dreffynnon amrywiaeth helaeth a gweithgar o grwpiau a sefydliadau cymunedol sy'n cynnig cymorth i'w drigolion. Mae rhai wedi eu lleoli yng nghanol y dref, eraill wedi eu lleoli ar yr ymylon, a rhai i'w cael o fewn cymdogaethau yn Pen-y-Maes, Holway a Dyffryn Maes Glas. Mae rôl llesiant yng nghanol y dref yn dod yn fwyfwy pwysig gydag angen i drigolion ddeall beth sydd ar garreg eu drws, pa weithgareddau a chymorth maent yn eu darparu a sut i gymryd rhan. Mae angen felly i rwydweithio sefydliadau fel bod cydgysylltu rhwng grwpiau a'i gilydd ac osgoi dyblygu. Gall parhau â dull amlasiantaeth o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithio o ganolfan yng nghanol y dref ddod â sgiliau a gwybodaeth at ei gilydd a chysylltiadau â'r gymuned ehangach. Ar lefel ffisegol bydd angen i rai asedau ffisegol fod yn fwy cydlynol ac amlwg i bobl gyda'r angen am well lleoliadau, cysylltiadau, lleoedd parcio a help gyda symudedd.

## CYFLEOEDD POBL





**Meithrin Mentergarwch**

Mae gan Stryd Fawr Treffynnon gynfas eang oherwydd ei hanes Sioraidd a Victoriaidd ac mae ei barth cyhoeddus yn cynnig digon o le. Gall yr holl nodweddion hyn atgyfnerthu profiad o ganol tref sy'n edrych tua'i gorffennol gyda diwydiannau mwyngloddio a masnach cotwm, parhau â'i thema llesiant ac fel lle'r ydych yn teithio iddo, trwy bererindod a theithiau cerdded a llwybrau eraill. Mae cyfleoedd i fusnesau lleol fanteisio ar y cynhyrchion hyn, gyda chymorth gan asiantau cyhoeddus a lleol i hyrwyddo a helpu gyda datblygu achos busnes a thwf. Mae bylchau posibl yn cynnwys llety diwasanaeth, cynhyrchion ffordd o fyw / hamdden, cynhyrchion a wneir yn lleol, lleoedd bwyta sy'n canolbwyntio ar fwyd cartref yn ogystal â'r sector creadigol gydag eitemau megis serameg, gemwaith, dillad a mentrau economi werth/gylchol. Mae creu ymgyrch "llesiant" sy'n cysylltu busnesau o gyffelyb fryd yn arwain at fás critigol o fusnesau ac yn cychwyn adeiladu diddordeb a chywreinrwydd yn Nhreffynnon.

## SYMUD YMLAEN

Mae gweithredu'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn dibynnu ar ddull partneriaeth lle mae grwpiau a sefydliadau'n dod at ei gilydd o wirfodd i ddatblygu a pheri i newid ddigwydd yng nghanol tref Treffynnon a'i gymdogaethau cyfagos. Mae'r cyfleoedd o fewn y Cynllun Creu Lleoedd hwn yn gofyn am wahanol gyfuniadau o bartneriaid, adnoddau ac amserlen ar gyfer datblygu a chyflawni.



creu lleoedd
SIRYFFLINT

chris jones

Roberts Limbrick

